Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Asesiad o Gydnerthedd Ariannol

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 283A2016

# Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Steve Barry a Ron Price.

# Cynnwys

Mae gan yr Awdurdod drefniadau cadarn i sicrhau cydnerthedd ariannol.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno gostyngiad o wyth y cant mewn gwariant o gymharu â 2011-12, ac mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn cynyddu | 6 |
| **Cynllunio ariannol**<br>Cefnogir gwaith cynllunio ariannol gan strategaeth gyllidebol, ynghyd â dealltwriaeth o'r prif risgiau a'r heriau. | 9 |
| **Rheolaeth ariannol**<br>Cefnogir rheolaeth ariannol gan drefniadau effeithiol i fonitro'r gyllideb a llunio rhagolygon, ac mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda yn y gorffennol. | 10 |
| **Llywodraethu ariannol**<br>Mae'r trefniadau llywodraethu ariannol yn effeithiol ac wedi'u cefnogi gan heriau clir o du aelodau'r Awdurdod, adroddiadau manwl gywir ac ymrwymiad ar lefel uwch | 10 |
| Atodiadau | |
| Prif nodweddion | 12 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae rheoli arian yn dda yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithlon.

Rheoli ariannol da:

- mae'n helpu awdurdodau i wneud y penderfyniadau cywir am y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir;
- mae'n helpu awdurdodau i gyflenwi gwasanaethau sy'n bodloni ymrwymiadau statudol ac anghenion cymunedau lleol;
- mae'n hanfodol ar gyfer llywodraethu corfforaethol da;
- mae'n golygu rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol, i'r un graddau â rheoli arian;
- mae'n tanategu ansawdd gwasanaethau a gwaith i'w gwella;
- dyma'r sail ar gyfer atebolrwydd i randdeiliaid ynghylch gwarchodaeth ar arian a'r defnydd ohono; ac
- mae'n ddisgyblaeth rheoli allweddol.

**2.** Nid rhagweld y dyfodol a wneir wrth reoli arian am y tymor hir, ond paratoi ar ei gyfer. Mae angen i awdurdodau ddeall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bwlch rhwng anghenion ariannu ac incwm posibl, a datblygu strategaethau arbed priodol.

**3.** Drwy greu strategaethau ariannol hirdymor a chynlluniau ariannol tymor canolig tra ystyriol a manwl fydd yn galluogi dewisiadau ariannol priodol, gellir sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cael eu cyflawni. I'r gwrthwyneb, mae cynllunio'r gyllideb yn flynyddol ar gyfer y tymor byr yn annog dull graddol a ysgogir gan broesau, a all fod yn aneffeithiol mewn cyfnod pan fo'r byd y tu allan yn newid yn gyflym.

**4.** Sicrheir cydnerthedd ariannol pan fydd gan awdurdod systemau a phrosesau cadarn i reoli ei gyfleoedd a'i risgiau ariannol, ac i sicrhau sefyllfa ariannol gadarn.

**5.** Roedd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2015 'Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru' yn seiliedig ar waith maes a gwblhawyd yn holl awdurdodau lleol Cymru. O'r gwaith hwn, ac o ddeunydd arall sy'n gysylltiedig ag agweddau ar reolaeth ariannol, rydym wedi cydgasglu prif nodweddion arfer da er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu eu trefniadau. Ceir hyd i'r nodweddion hyn yn Atodiad 1.

**6.** O ystyried y pwysau parhaus ar gyllid, rydym wedi ystyried a oes gan yr Awdurdod drefniadau priodol er mwyn cynllunio i sicrhau a chynnal ei wytnwch ariannol yn y tymor canolig (tair i bum mlynedd i'r dyfodol fel arfer). Er ei bod hi'n bosibl y bydd gan yr Awdurdod fwy o sicrwydd dros gylch blynyddol, bydd pwysau ariannol yn effeithio arno y tu hwnt i gyfnod y setliad cyfredol. Rydym wedi ystyried tystiolaeth o ddull yr Awdurdod o reoli ei gyllid yn ddiweddar, a thros y tymor canolig wrth ffurfio ein barn ynghylch cydnerthedd ariannol yr Awdurdod.

**7.** Cynhaliom ein hasesiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Hydref 2015, gan fynd ar drywydd materion a amlygwyd yng ngwaith 2014-15 ar y sefyllfa ariannol. Ffocws y gwaith oedd cyflawni cynlluniau arbed 2014-15, a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16.

Canolbwyntiai'r gwaith ar ateb y cwestiwn canlynol**:** A yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn rheoli gostyngiadau i'r gyllideb mewn modd effeithiol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol? Gwelsom fod **gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol.**

- Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno gostyngiad o wyth y cant mewn gwariant o gymharu â 2011-12, ac mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn cynyddu.
- Cefnogir gwaith cynllunio ariannol gan strategaeth gyllidebol, ynghyd â dealltwriaeth o'r prif risgiau a'r heriau.
- Cefnogir rheolaeth ariannol gan drefniadau effeithiol i fonitro'r gyllideb a llunio rhagolygon, ac mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda yn y gorffennol.
- Mae'r trefniadau llywodraethu ariannol yn effeithiol ac wedi'u cefnogi gan heriau clir o du aelodau'r Awdurdod, adroddiadau manwl gywir ac ymrwymiad ar lefel uwch

**8.** Yn yr adroddiad hwn, dyfernir sgôr ar gyfer pob agwedd: cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. Ceir disgrifiadau isod ar gyfer y sgoriau risg:

| | |
|---|---|
| **Risg isel** | Mae'r trefniadau'n ddigonol (neu'n well), gydag ambell ddiffyg o ran systemau, prosesau neu wybodaeth. Mae'n bosibl mai bach yw'r effaith ar allu'r awdurdod i gyflawni ei gynllun ariannol. |
| **Risg ganolig** | Ceir rhai diffygion o ran systemau, prosesau neu wybodaeth a allai effeithio ar allu'r awdurdod i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir yn sgil ei gynllun ariannol. |
| **Risg uchel** | Ceir diffygion sylweddol o ran systemau, prosesau neu wybodaeth ac/neu fe geir risg wirioneddol na fydd cynllun ariannol yr awdurdod yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. |

**9.** Dyma yw ein barn ynghylch y risg i'r Awdurdod ar gyfer pob un o'r elfennau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Risg isel** | Cynllunio ariannol |
| **Risg isel** | Rheolaeth ariannol |
| **Risg isel** | Llywodraethu ariannol |

# Adroddiad manwl

## Mae gan yr Awdurdod drefniadau cadarn i sicrhau cydnerthedd ariannol

### Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno gostyngiad o wyth y cant mewn gwariant o gymharu â 2011-12, ac mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn cynyddu

**10.** Mae'r tri Awdurdod Tan ac Achub yng Nghymru wedi rheoli cyfyngiadau ariannol yn dda ers 2010-11. Mae nifer y tanau a'r anafusion wedi parhau i ostwng heb iddynt fod angen cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn, a hynny oddi mewn i gyllidebau a sefydlwyd ac y cytunwyd arnynt â'r awdurdodau lleol cyfansoddol perthnasol.

**11.** Sicrhawyd arbedion i raddau helaeth drwy ostwng costau staff ym mhob un o dri Awdurdod Tân ac Achub (ATA) Cymru. Mae gan bob ATA gyfarpar a gorsafoedd wedi'u diogelu a'u cefnogi, ond cyflwynwyd gostyngiadau ganddynt drwy newid trefniadau'r criwiau, swyddi uwch reolwyr a di-iwnifform a chostau gwasanaeth canolog. Mae cynnal gorsafoedd ac ymateb a phresenoldeb gweithredol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, yn her ar draws Cymru, ond yn rhywbeth a werthfawrogir gan y cyhoedd.

**12.** Oherwydd y fframwaith ariannol sydd yn sail i waith Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, mae'r Awdurdodau'n ymgysylltu â'r awdurdodau lleol o fewn eu hardal yn flynyddol er mwyn cytuno ar setliad cyllidebol. Rhennir cyfanswm y gyllideb a bennir yn ôl y boblogaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, er mwyn pennu'r ffigur gwirioneddol y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ei dalu i'r Awdurdod Tân. Ariennir cost yr Awdurdod Tân ac Achub drwy godi ardoll ar yr awdurdodau lleol cyfansoddol a thrwy gyllid ychwanegol a ddarperir drwy grant gan Lywodraeth Cymru. Mae gan yr Awdurdodau Tân ac Achub rym i godi symiau ychwanegol os oes angen.

**13.** Ym mis Rhagfyr 2010, mabwysiadodd yr Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) strategaeth tair blynedd ar gyfer y gyllideb, yn seiliedig ar rewi ei gyllideb hyd 2014-15. Mae'r arddangosion isod yn dangos effaith y strategaeth hon dros y cyfnod dan sylw.

Arddangosyn 1 - Gwariant refeniw gros 2011-12 i 2014-15

Ers 2011-12, mae gwariant gros wedi gostwng yn nau o'r tri ATA.

| Awdurdod | 2011-12 £miliwn | 2012-13 £miliwn | 2013-14 £miliwn | 2014-15 £miliwn |
|---|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | £52.256 | £45.243 | £47.589 | £44.250 |
| **Gogledd Cymru** | **£31.657** | **£31.678** | **£29.848** | **£30.647** |
| De Cymru | £68.966 | £73.400 | £77.434 | £73.173 |

Ffynhonnell: Datganiadau Cyfrifon Blynyddol

**14.** Gellir addasu'r ffigurau yn Arddangosyn 1 i adlewyrchu pwysau oherwydd chwyddiant[1] er mwyn dangos y newidiadau mewn termau real ers 2011-12. Dengys Arddangosion 2 a 3 fod yr Awdurdod wedi cyflwyno gostyngiad (fel yr oedd wedi'i gynllunio) o ychydig llai na £3 miliwn (8.2 y cant) mewn gwariant ers 2011-12.

### Arddangosyn 2 - Gwariant mewn termau real 2011-12 i 2014-15

Ers 2011-12, mae gwariant termau real wedi gostwng yn ATA Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn ATA Gogledd Cymru, ond wedi cynyddu rhyw fymryn yn ATA De Cymru.

| Awdurdod | 2011-12 £miliwn | 2012-13 £miliwn | 2013-14 £miliwn | 2014-15 £miliwn |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | £55.111 | £46.857 | £48.270 | £44.250 |
| **Gogledd Cymru** | **£33.387** | **£32.808** | **£30.275** | **£30.647** |
| De Cymru | £72.735 | £76.019 | £78.542 | £73.173 |

Ffynhonnell: Datganiadau Cyfrifon Blynyddol wedi'u haddasu i adlewyrchu datchwyddwyr CDG y Trysorlys ym mis Tachwedd 2015

### Arddangosyn 3 - Newidiadau i wariant termau real yn 2011-12 o gymharu â 2014-15

| Awdurdod | Gwahaniaeth termau real 2011-12 i 2014-15 £miliwn | Canran y newid |
|---|---:|---:|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | -£10.86 | -19.75% |
| **Gogledd Cymru** | **-£2.740** | **-8.2%** |
| De Cymru | +£0.438 | +0.60% |

**15.** Dengys Arddangosion 4 a 5 fod swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o wariant refeniw gros wedi bod yn cynyddu dros y cyfnod 2011-12 i 2014-15. Mae unrhyw beth dros 10 y cant yn arwydd da o gryfder y gronfa wrth gefn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu bod lefelau is yn arwydd o wendid. Mae'r Awdurdod yn dilyn arferion disgwyliedig drwy gytuno ar lefel briodol o gronfeydd wrth gefn ar gyfer ei amgylchiadau ei hun, yn seiliedig ar argymhellion oddi wrth ei bennaeth cyllid.

[1] Fel y mesurwyd gan ddatchwyddwyr Cynnyrch Domestig Gros y Trysorlys, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015.

## Arddangosyn 4 - Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 2011-12 i 2014-15

Mae swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y cyfnod hwn.

| Awdurdod | 2011-12 £miliwn | 2012-13 £miliwn | 2013-14 £miliwn | 2014-15 £miliwn |
|---|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | £5.878 | £7.360 | £7.865 | £9.168 |
| **Gogledd Cymru** | **£2.040** | **£2.033** | **£3.471** | **£3.384** |
| De Cymru | £12.311 | £14.319 | £12.102 | £14.839 |

Ffynhonnell: Datganiadau Cyfrifon Blynyddol

## Arddangosyn 5 - Cronfeydd wrth gefn fel canran o wariant refeniw gros

Mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y tri Awdurdod Tân ac Achub yn amrywio

| Awdurdod | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 11.23% | 16.28% | 16.54% | 20.71% |
| **Gogledd Cymru** | **6.44%** | **6.42%** | **11.63%** | **11.04%** |
| De Cymru | 17.85% | 19.51% | 15.63% | 20.28% |

**16.** Ym mis Rhagfyr 2013, pennodd yr Awdurdod ei gyllideb ar gyfer 2014-15. Yn sgil newid i'r dull o ariannu prosiect graddfa fawr, manteisiodd ar y cyfle i gyfrannu £405,583 o'r cronfeydd wrth gefn.

**17.** Mae'r Awdurdod wedi pennu ei ddull o ymdrin â chronfeydd wrth gefn yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y cytunwyd arni yng nghyfarfod yr Awdurdod Llawn ar 25 Ionawr 2016.

**18.** Nid oes gan yr Awdurdod bolisi cynhyrchu incwm na pholisi codi tâl ar waith ar hyn o bryd. Y mae'n disgwyl am ymatebion oddi wrth randdeiliaid cyn gwneud penderfyniadau ynghylch cyflwyno polisi ar gynhyrchu incwm neu godi tâl. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal â'r rhanddeiliaid hynny ar hyn o bryd.

# Cynllunio ariannol

## Cefnogir gwaith cynllunio ariannol gan strategaeth gyllidebol, ynghyd â dealltwriaeth o'r prif risgiau a'r heriau

**19.** Ym mis Rhagfyr 2010, mabwysiadodd yr Awdurdod strategaeth dair blynedd ar gyfer y gyllideb, yn seiliedig ar rewi ei gyllideb hyd 2014-15. Ar ôl cyflwyno'r strategaeth hon, adolygodd yr Awdurdod ei sefyllfa yn ystod 2015-16, a mabwysiadodd strategaeth ariannol tymor canolig newydd ar gyfer y tair blynedd o 2016 i 2019 ar 25 Ionawr 2016.

**20.** Mae'r Awdurdod wedi bod yn ystyried ei gyfrifoldebau statudol dros y ddwy flynedd diwethaf drwy gynnal adolygiad o wasanaethau gweithredol cyfredol a'r proffil risg a wynebir gan gymunedau. Mae'r Awdurdod yn wynebu heriau neilltuol yn gysylltiedig â'r defnydd o staff System Dyletswydd yn ôl Galw (SDG). Mae'r aelodau ar-alwad hyn o staff yn anodd eu recriwtio mewn rhai lleoliadau, ac mae’r trosiant yn eu plith yn uchel. Mae'r Awdurdod wedi ymateb i hyn drwy wneud defnydd mwy hyblyg o staff amser llawn. Ar hyn o bryd, y mae'n ystyried sut y gall ymateb i'r her hon oddi mewn i'w brosesau ymgynghori a chynllunio ar gyfer gwella.

**21.** Wrth ymgysylltu, ac mewn gweithgorau â'r aelodau ac yn y cynlluniau strategol amrywiol a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod, cafwyd dealltwriaeth glir ynghylch pa arbedion fyddai’n bosibl, a sut y gellid pennu cyllideb gytbwys. Mae a wnelo'r elfen fwyaf o wariant yn y gyllideb â chostau cyflogeion, ac mae'r Awdurdod wedi cyfleu'n glir sut mae gwneud y defnydd gorau o'i weithlu er mwyn bodloni'r galw presennol yn y modd mwyaf cost-effeithiol, ee, drwy newid y criwiau a thrwy weithredu dull mwy hyblyg o ddarparu gwasanaeth tân yn ystod oriau dydd.

**22.** Mae costau cyflogeion ymhlith y prif ffactorau sy'n ysgogi gwariant, ynghyd ag eiddo, trafnidiaeth, yswiriant a phensiynau. Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth dda a chlir o'r materion a'r heriau sy'n gysylltiedig â phob maes gwariant, ac mae'n rhoi safbwynt clir hirdymor o'r arbedion cost posibl a'r risgiau ym mhob un o'r meysydd hyn.

**23.** Pennodd yr Awdurdod gyllideb gytbwys ar gyfer 2015-16 ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau lleol cyfansoddol. Pennwyd £32.78 miliwn fel cyllideb refeniw ar gyfer 2015-16, ac ystyriwyd rhagolygon o £33.96 miliwn ar gyfer 2016-17, a £34.39 miliwn ar gyfer 2017-18. Mae hyn yn amodol ar brosesau ymgynghori.

**24.** Mae'r Awdurdod yn gwneud rhagdybiaethau rhesymol yn seiliedig ar brofiad blaenorol ac ar ffigurau cyllidebol ac alldro.

**25.** Mae aelodau uwch o staff yr awdurdod yn gofalu eu bod yn pennu cyllidebau realistig gyda'r awdurdodau lleol yn eu hardal ar ddechrau'r flwyddyn. Gwneir hyn er mwyn osgoi gorfod gofyn am gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn, er y byddai gan yr Awdurdod rym i wneud hynny.
Ystyrir bod hyn yn galluogi'r awdurdodau lleol i weithredu trefniadau cyllidebu cadarn a chlir drwy gydol y flwyddyn ariannol.

# Rheolaeth ariannol

## Cefnogir rheolaeth ariannol gan drefniadau effeithiol i fonitro'r gyllideb a llunio rhagolygon, ac mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda yn y gorffennol

**26.** Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn rheoli'r gyllideb. Mae adroddiadau a chyllidebau ariannol yn cynnwys dadansoddiadau tuedd cadarn, ac fe geir lefel dda o drafodaeth a her yn y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag effaith newidiadau o fewn cyllidebau. Ceir dealltwriaeth dda o'r meysydd gwariant hollbwysig, sef costau cyflogeion, trafnidiaeth, eiddo, yswiriant a phensiynau.

**27.** Ers sawl blwyddyn, mae'r Awdurdod wedi llwyddo i weithredu oddi mewn i'w gyllidebau. Ceir rheolaeth effeithiol ar gyllidebau ar lefel uwch strategol ac oddi mewn i gyllidebau a ddirprwyir ar draws y sefydliad. Mae'r trefniadau adrodd a monitro a gyflawnir drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth â Chyngor Sir Gwynedd yn gweithio'n dda, ac yn briodol ar gyfer y cyd-destun y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo.

**28.** Cyflawnodd yr Awdurdod danwariant yn erbyn yr alldro a gynlluniwyd ganddo ar gyfer y gyllideb yn 2014-15. Pennwyd cyllideb wreiddiol 2014-15 yn seiliedig ar gyllideb o £32.47 miliwn mewn cyfraniadau. Gwariant refeniw gros 2014-15 oedd £30.647 miliwn. Cyflawnodd yr Awdurdod danwariant o £1.45 miliwn, ac mae'r rhan fwyaf ohono wedi cael ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn. Mae a wnelo'r elfen fwyaf yng nghyllideb yr Awdurdod â chyflogau. Roedd hyn i gyfrif am 68 y cant o gyfanswm gwariant yr Awdurdod yn ystod 2014-15. Oddi mewn i'r gyllideb hon y cafwyd y mwyaf o danwariant, gyda thanwariant o £553,000 yn y gyllideb ar gyfer cyflogau diffoddwyr tân amser cyflawn, a thanwariant o £561,000 ar gyfer cyflogau'r System Dyletswydd yn ôl Galw. Cafwyd mân amrywiadau eraill i gyllidebau gweithredol, ond nid yr amrywiadau hynny o bwys mawr, nac yn sylweddol.

**29.** Mae'r Awdurdod wedi pennu ei ddull o ymdrin â chronfeydd wrth gefn yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Llawn ar 25 Ionawr 2016.

# Llywodraethu ariannol

## Mae'r trefniadau llywodraethu ariannol yn effeithiol ac wedi'u cefnogi gan heriau clir o du aelodau'r Awdurdod, adroddiadau manwl gywir ac ymrwymiad ar lefel uwch

**30.** Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd yn erbyn ein cynigion gwella blaenorol. Mae'n gweithio ar gynllun ariannol tymor canolig ac yn ymgynghori ar gynnwys tebygol y cynllun hwnnw. Y mae wedi ymateb yn effeithiol ac mewn modd priodol o ran sefydlu strategaeth cronfeydd wrth gefn, ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch polisïau codi tâl yn y dyfodol a rheolaethau dros gynhyrchu incwm. Y mae hefyd wedi gwneud

cynnydd wrth sefydlu cysylltiadau cliriach rhwng cynlluniau ariannol ac amcanion gwella. Yn awr, mae angen iddo gwblhau'r meysydd gwella hyn.

**31.** Mae'r trefniadau llywodraethu i reoli agweddau ariannol yr Awdurdod yn gadarn, yn briodol ac wedi'u rheoli'n dda. Cafwyd adroddiadau ac adolygiadau manwl gywir ac amserol ar gyfer y cyllidebau yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15, ac mae'r arferion hyn yn parhau. Adroddwyd alldro terfynol y gyllideb wrth Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod ar 1 Mehefin 2015, gyda datganiad clir a chryno ynghylch yr alldro a gwybodaeth am amrywiant i'r gyllideb.

**32.** Mae'r adroddiadau'n fanwl gywir, ac fe geir lefel ddigonol o her yn y prif bwyllgorau sy'n ymwneud â chyllid, sef y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol yn benodol. Darperir gwasanaethau rheoli a chyngor ariannol i'r Awdurdod drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) â Chyngor Sir Conwy, ac mae'r trefniant hwnnw'n effeithiol.

**33.** Caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) yr Awdurdod ei gynnwys bob blwyddyn yn y Datganiad Cyfrifon. Dyma ddatganiad clir ynghylch materion llywodraethu sy'n adlewyrchu gwaith yr Awdurdod.

**34.** Mae tîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod yn deall y risgiau a'r heriau sylweddol o'u blaen. Ceir dealltwriaeth dda ar raddfa gorfforaethol o faterion strategol, ac ymrwymiad i gynnal deialog ac ymgynghori'n rheolaidd â'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol yng Ngogledd Cymru.

**35.** Cyflwynir adroddiadau tryloyw a manwl gywir yn rheolaidd i'r aelodau. Mae ansawdd yr adroddiadau a'r wybodaeth ariannol i'r Awdurdod yn gyson ac yn briodol ar gyfer anghenion y sefydliad. Mae'r aelodau wedi gallu herio a chraffu ar adroddiadau ariannol, ac adroddiadau eraill, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn wrthrychol, yn deg ac yn hyddysg wrth ryngweithio â swyddogion.

**36.** Ymdrinnir ag argymhellion mewnol ac allanol mewn modd effeithiol ac amserol. Gwnaed hynny wrth ymateb i argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol a hefyd drwy ymateb i gynigion ar gyfer gwella gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Atodiad 1

## Prif nodweddion

| Prif nodweddion cynllunio ariannol da |
|---|
| Pennir cyllideb yr awdurdod yng nghyd-destun strategaeth ariannol tymor hwy a chynllun ariannol tymor canolig sy'n trafod tair i bum mlynedd. |
| Mae'r awdurdod wedi nodi'n glir yr arbedion y mae'n bwriadu eu sicrhau dros gyfnod o dair i bum mlynedd.<br>Ceir costau manwl a chynlluniau cyflawni ar gyfer arbedion unigol yn sail ar gyfer y cynllun arbedion (gan gynnwys arbedion trawsnewid/newid). |
| Mae gan yr awdurdod hanes da o gyflawni yn erbyn ei gynlluniau arbed. |
| Mae cynlluniau ariannol tymor canolig a chyllidebau blynyddol yn adlewyrchu blaenoriaethau ac amcanion strategol yr awdurdod am y flwyddyn, ac am y tymor hwy. |
| Mae'r rhagdybiaethau'n gysylltiedig â chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, galw am wasanaethau yn y dyfodol, a chostau'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau wedi'u modelu a seilio ar ragfynegiadau rhesymol. |
| Mae'r awdurdod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n tarddu ohonynt, ac y mae wedi adolygu ei ymagwedd at ffioedd a thaliadau er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian. |
| Mae prosesau cynllunio ariannol a chorfforaethol yn integredig, wedi'u cysylltu â threfniadau rheoli risg, ac yn ymgorffori gwaith cynllunio strategol ar gyfer adnoddau eraill, gan gynnwys y rhaglen gyfalaf a chynllunio'r gweithlu. |
| Mae'r awdurdod yn defnyddio modelau ariannol i asesu'r effaith debygol ar gynlluniau ariannol a'r arbedion sydd eu hangen ar gyfer gwahanol senarios, ac er mwyn helpu i sicrhau na cheir atebion tymor byr ar draul cynaliadwyedd tymor hir. |
| Mae'r awdurdod yn modelu'r prif ffactorau sy'n rheoli gwariant (er enghraifft, newid i'r boblogaeth a'r galw am wasanaethau), ffynonellau incwm (er enghraifft, rhagolygon incwm a grantiau'r llywodraeth), canlyniadau refeniw yn sgil gofynion a balansau cyfalaf a chronfeydd wrth gefn. |
| Mae'r awdurdod yn gweithredu'n unol â'r lefel a gymeradwywyd gan yr aelodau ar gyfer balansau a chronfeydd wrth gefn (gan gynnwys cronfeydd wedi'u clustnodi a balans y gronfa gyffredinol), a'r lefel sy'n gweddu i'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y mae'n eu wynebu. |
| Os nad yw'r Awdurdod yn cyrraedd ei lefel darged ar gyfer balansau, mae'r sefydliad wedi cynllunio camau i gyflawni hyn, gan ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig i sefyllfa ariannol y sefydliad, a'i allu i gyflawni ei flaenoriaethau. |

| **Prif nodweddion rheolaeth ariannol dda** |
| --- |
| Mae gan yr awdurdod bolisi priodol ac effeithiol ar gyfer rheoli'r gyllideb sy'n pennu'r rolau, y cyfrifoldebau a'r atebolrwydd yn glir. Mae'r cynllun dirprwyo yn glir, a nodir prosesau i reoli tanwariant neu orwariant ar y gyllideb. |
| Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a llunio rhagolygon ariannol yn addas i'r diben ac yn seiliedig ar groniadau, gan helpu i sicrhau cysylltiad clir rhwng y gyllideb, y rhagolygon yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. |
| Mae'r awdurdod yn dadansoddi ac yn allosod tueddiadau perthnasol ac yn ystyried eu heffaith ar amcanestyniad yr alldro terfynol. |
| Mae'r Awdurdod yn cymryd camau amserol i fynd i'r afael ag unrhyw bwysau cyllidebol, er enghraifft drwy gymryd camau unioni i reoli amrywiadau anffafriol neu drwy edrych eto ar flaenoriaethau corfforaethol. |
| Yn ddiweddar, mae gan yr awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb heb unrhyw danwariant sylweddol. |
| Mae'r awdurdod wedi cytuno ar bolisi clir ar ddefnyddio'i gronfeydd wrth gefn. Ceir lefel isafswm ar gyfer balans cronfeydd wrth gefn ei 'gronfa gyffredinol', a chyfiawnhad clir dros hynny. Ceir sail resymegol i esbonio trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn, neu rhyngddynt. Mae protocolau clir yn egluro sut a phryd y dylid defnyddio pob cronfa wrth gefn. Ceir asesiad cynhwysfawr o risg a pherfformiad cyfredol yn sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch cronfeydd wrth gefn. |
| Mae'r aelodau wedi cytuno ar y polisi cronfeydd wrth gefn, ac mae'r polisi'n destun craffu. |
| Mae gan yr awdurdod bolisi clir ar gynhyrchu incwm/codi tâl. Ceir cofrestr taliadau ar draws ei wasanaethau i'w gynorthwyo i reoli taliadau mewn modd cyson. Mae gan yr awdurdod ganllawiau corfforaethol ar weithredu consesiynau. Adolygir taliadau'n rheolaidd, gan ddiweddaru'r polisi. |
| Nid yw'r awdurdod yn dileu lefelau sylweddol o ddyled fel dyled na ellir ei chasglu. |
| Mae'r awdurdod yn monitro ei brif gymarebau ariannol, yn eu meincnodi yn erbyn cyrff tebyg ac yn cymryd camau fel bo'n briodol. |
| Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r awdurdod. |

| Prif nodweddion llywodraethu ariannol da |
| --- |
| Mae'r tîm arwain yn deall yn glir yr heriau a'r risgiau sylweddol y mae'r sefydliad yn eu wynebu o ran rheoli ariannol, a natur gyfnewidiol yr heriau a'r risgiau hynny, ac yn cymryd camau priodol i sicrhau sefyllfa ariannol gadarn. |
| Mae gan yr Awdurdod gapasiti a gallu digonol i hyrwyddo a chyflawni trefniadau i reoli arian yn dda. |
| Mae'r tîm arwain yn meithrin amgylchedd lle ceir dealltwriaeth dda o ragdybiaethau a pherfformiad ariannol, a lle caiff hynny ei herio'n rheolaidd, a diwylliant o dryloywder o ran y sefyllfa ariannol. |
| Mae'r tîm arwain yn craffu ac yn herio mewn modd adeiladol yng nghyswllt materion ariannol er mwyn sicrhau bod trefniadau'n parhau i fod yn gadarn ac yn addas i'r diben. |
| Cyflwynir adroddiadau rheolaidd a thryloyw i'r aelodau. Mae'r adroddiadau'n cynnwys manylion cynlluniau gweithredu a dadansoddiadau amrywio. |
| Mae'r aelodau'n herio ac yn craffu ar berfformiad ariannol mewn modd effeithiol gan ddwyn swyddogion i gyfrif. |
| Ymdrinnir ag argymhellion archwilio mewnol ac allanol mewn modd effeithiol ac amserol. |
| Ymgysylltir yn effeithiol â rhanddeiliaid ar faterion y gyllideb, gan gynnwys ymgyngoriadau cyhoeddus. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru